

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Medi 2019



Canlyniadau TGAU Haf 2019

Llongyfarchiadau i bawb ar eu canlyniadau TGAU a BTEC. Braf yw nodi i ambell ddisgybl ennill graddau uchel gydag un disgybl yn ennill 12 A*. Gwelwyd canlyniadau da iawn ar draws nifer o bynciau a dymuniadau gorau iddynt oll ar gyfer y dyfodol a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled. Roeddwn yn arbennig o falch o ran y cymwysterau galwedigaethol.

Croesawu Bl.7

Ar ddechrau tymor braf oedd croesawu disgyblion newydd i Flwyddyn 7. Rydym yn hyderus y byddant yn hapus iawn yn Ysgol Eifionydd.

Ffarwelio â Staff

Ar ddiwedd tymor yr haf ffarweliwyd â Mrs. Bethan Roberts ar ôl sawl blwyddyn fel Pennaeth yr Adran Saesneg, Mrs. Nia Povey, Athrawes Arbennigol ADY a Mrs. Nia Williams, Cymhorthydd ADY. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i'r tair.

Dymuniadau gorau i Mrs. Mary Gwyn ar ei phenodiad fel Pennaeth yr Adran Saesneg a Mrs. Catrin Elan Roberts yn Gydlynnydd Llythrennedd.

Teithiau Cerdded Noddedig Bl.7, 8 a 9 – Gorffennaf 2019

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol yma yn Ysgol Eifionydd ac yn glo i flwyddyn arall o waith caled gan bawb, yn ddisgyblion, athrawon a staff ategol. Roedd cyfle ar yr wythnos olaf un i lunio gweithgareddau mwy torfol a sionc, cyfle i blant fod yn blant ac i bobl ifanc gael mwynhau cwmni eu cyd-ddisgyblion mewn awyrgylch ac amgylchedd mwy anarferol na'r arfer.

Trefnwyd teithiau cerdded noddedig gyda Blwyddyn 7 yn mwynhau taith hyfryd i Morfa Bychan. Cyn dychwelyd am yr ysgol cafwyd cyfle i gyd-chwarae gemau rownderi a pêl droed yn ddisgyblion ac athrawon. Fe fentrodd Blwyddyn 8 ar daith i fyny Moel y Gest a Blwyddyn 9 rownd Creigiau'r Dref ar ddiwrnod o haul poeth, bendigedig a chael gweld golygfeydd godidog ein bro.

Wrth ymlwybro yn ôl i Eifionydd a phawb yn gytûn i ni gael diwedd tymor bendithiol a haeddiannol cafwyd y cyfle i brynu hufen-iâ.

Gyda diolch o galon am gefnogaeth hael y gymuned i noddi ein disgyblion.



Taith Pêl-droed i Gaerdydd

Ar ddechrau'r tymor cafodd nifer o ddisgyblion Bl.7 – 9 y cyfle i deithio lawr i Gaerdydd i weld gêm bêl-droed cyfeillgar Cymru yn erbyn Belarws. Gadawodd y disgyblion ar fore Llun 9^{fed} o Fedi yn llawn bwrlwm ac egni yn barod i gefnogi'n tim cenedlaethol. Dychwelodd pawb ar b'nawn dydd Mawrth yn hapus iawn yn dilyn buddugoliaeth Cymru. Diolch i athrawon yr Adran Addysg Gorfforol am drefnu.

